Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gwasanaeth **Ynni**
**Energy** Service

Cefnogi ymdrech Cymru i greu economi carbon isel lwyddiannus
Supporting Wales' drive towards a successful low carbon economy

# Adroddiad Blynyddol 2019-20



Gwasanaeth **Ynni**
**Energy** Service

Cefnogi yndrech Cymru i greu economi carbon isel lwyddiannus
Supporting Wales' drive towards a successful low carbon economy

# Tabl Cynnwys


| Teitl y dudalen | Rhif y dudalen |
|---|---|
| Cyflwyniad | 3 |
| Effaith y Gwasanaeth Ynni | 5 |
| Buddsoddiadau ynni glân yng Nghymru | 6 |
| Prosiectau ynni newydd a'r rhai a gwblhawyd | 7 |
| Pwy y buom yn gweithio gyda nhw | 7 |
| Pob prosiect y Gwasanaeth Ynni er 2018 | 8 |
| Astudiaethau achos prosiectau: | 9 |
| Solar a berchnogir gan y gymuned: cyflwyno'r rhaglen ynni adnewyddadwy ar doeon fwyaf yn hanes Cymru | 9 |
| Bae Abertawe yn arwain y ffordd tuag at wasanaeth iechyd gwyrddach | 10 |
| Prifysgol De Cymru: campws carbon isel | 10 |
| Goleuadau stryd hynod effeithlon yng Nghonwy | 11 |
| Tyrbin gwynt a berchnogir gan y gymuned yng Ngheredigion | 12 |
| Gwaith strategol | 13 |
| Cerbydau carbon isel a seilwaith gwefru yn y sector cyhoeddus | 13 |
| Canllawiau polisi perchnogaeth leol | 14 |
| Cynllunio ynni rhanbarthol | 14 |

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gwasanaeth **Ynni**
**Energy** Service

Cefnogi yndrech Cymru i greu economi carbon isel lwyddiannus
Supporting Wales' drive towards a successful low carbon economy



Clwb Rygbi Cwmgors,
Aman a'r Mynydd Du.

30kW o baneli solar.



Canolfan Hamdden Trimsaran,
Sir Gaerfyrddin.

38.5kW o baneli solar.



Neuadd y Pentref
Clunderwen, Sir Penfro.

19.5kW o baneli solar.

Gwasanaeth **Ynni**
**Energy** Service

Cefnogi yndrech Cymru i greu economi carbon isel lwyddiannus
Supporting Wales' drive towards a successful low carbon economy

# Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno cyflawniadau Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru, o fis Ebrill 2019 hyd at fis Mawrth 2020.

Mae gan Lywodraeth Cymru dargedau uchelgeisiol ar gyfer gostwng allyriadau nwyon ty gwydr a chynhyrchu ynni adnewyddadwy a berchnogir yn lleol.

Mae'r gwasanaeth ynni yn cefnogi'r sector cyhoeddus a grwpiau cymunedol i weithio tuag at y targedau hyn. Mae'n rhaglen bedair blynedd a ariennir gan Lywodraeth Cymru, yn rhedeg o 2018 hyd at 2022.

Yn 2019-20, canolbwyntiodd ein gwaith ar:

- Prosiectau **effeithlonrwydd ynni** yn y sector cyhoeddus
- Prosiectau **ynni adnewyddadwy** yn y sectorau cyhoeddus a chymunedol
- **Cerbydau carbon isel** yn y sector cyhoeddus
- Canllawiau polisi ar **ynni adnewyddadwy a berchnogir yn lleol**
- **Cynllunio ynni rhanbarthol** ar gyfer Gogledd Cymru, Canolbarth Cymru, Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Dinas-Ranbarth Bae Abertawe

I gael mwy am Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru , ewch i:

https://llyw.cymru/y-gwasanaeth-ynni-ar-gyfer-grwpiaur-sector-cyhoeddus-grwpiau-cymunedol

@_gwasanaethynni

ymholidau@gwasanaethynni.cymru



# Effaith Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru

Yn 2019-20, fe wnaethom ni helpu i gyflawni:

**£56,940,000**
o arbedion biliau ynni oes ac incwm i'r sector cyhoeddus

**£14,770,000**
o incwm oes i grwpiau ynni cymunedol yng Nghymru

bydd hyn yn arbed
**146 mil tunnell o $CO_2$**



mae hynny gyfwerth â thynnu 1520 o geir oddi ar y ffordd yn barhaol

Cyfanswm buddsoddiad o...
**£28,392,000**
mewn effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy gan gefnogi...

- 10 o awdurdodau lleol
- 10 o grwpiau cymunedol
- 6 o gyrff a sefydliadau cyhoeddus

**£11,867,000**
... mewn benthyciadau di-log a ddarparwy
gan raglen Cyllid Cymru ar gyfer...

- Goleuadau stryd LED
- Datblygu effeithlonrwydd ynni
- Ynni adnewyddadwy ar gyfer adeiladau

Rydym wedi sicrhau cyllid ar gyfer:

**26 o brosiectau effeithlonrwydd ynni**
**15 o brosiectau ynni adnewyddadwy**

i helpu Cymru i leihau ei galw am ynni a chreu pŵer glân a berchnogir yn lleol

# Buddsoddiadau Ynni Glân yng Nghymru

Yn 2019-20 fe wnaethom ni helpu i sicrhau cyllid ar gyfer 17.4MW o brosiectau ynni gwynt, dŵr a solar ledled y wlad

**Mae hynny'n ddigon o drydan bob blwyddyn i allu...**

Pweru **5,155** o gartrefi Cymru

Gwefru car trydan **412,000** o weithiau

Rhedeg **348,000** o liniaduron

...neu gyflenwi **dwy** Stadiwm Principality am flwyddyn

Gwasanaeth Ynni
Energy Service

# Prosiectau ynni newydd a'r rhai a gwblhawyd

Yn ogystal â helpu i sicrhau cyllid ar gyfer 41 o brosiectau effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy yn 2019-20, fe wnaethom helpu i gwblhau prosiectau a oedd yn bodoli eisoes a dechrau datblygu prosiectau newydd ledled Cymru:

## Prosiectau a gwblhawyd

Nifer y prosiectau effeithlonrwydd ynni a gwblhawyd - 13
Nifer y prosiectau ynni adnewyddadwy a osodwyd – 21
Cyfanswm maint y prosiectau ynni adnewyddadwy a osodwyd – 3.8 MW

## Prosiectau newydd

Prosiectau ynni effeithlon newydd a ychwanegwyd – 47
Prosiectau ynni adnewyddadwy newydd a ychwanegwyd – 35


# Pwy y buom yn gweithio gyda nhw

Cafodd amrywiaeth eang o sefydliadau yng Nghymru eu cefnogi gennym yn 2019-20:

**39 o Grwpiau cymunedol**

**4 Sefydliad cyhoeddus***

**9 Prifysgol a choleg**



**17 o Awdurdodau lleol**

**7 Byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd**

**8 Cyngor tref a chymuned**

*Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Amgueddfeydd Cenedlaethol Cymru a Pharciau Cenedlaethol

# Prosiectau Ynni Llywodraeth Cymru ers 2018

Ers lansio'r Gwasanaeth Ynni ym mis Gorffennaf 2018, rydym wedi cefnogi:

**190** o Brosiectau

**22** o Awdurdodau

Ynni solar
62 o brosiectau

Effeithlonrwydd ynni
45 o brosiectau

Ynni dŵr
5 o brosiectau


Ynni gwynt
11 o brosiectau

Rhwydweithiau gwres a gwres adnewyddadwy
12 o brosiectau

Storio batris
1 o brosiectau

Goleuadau stryd effeithlon
24 o brosiectau

Ailosod: effeithlonrwydd ynni mawr
30 o brosiectau



## Modelau busnes

- Ysgolion solar
- Marchnadoedd ynni lleol
- Cymunedol cyfranddaliadau corfforaethol
- Hunan ariannu
- Mentrau ar y cyd
- Partneriaethau cymunedol

# Astudiaethau achos prosiectau

**Mae'r adran hon yn cyflwyno pum astudiaeth achos o brosiectau a gefnogwyd gan y Gwasanaeth Ynni yn 2019-20.**

## Solar a berchnogir gan y gymuned: cyflwyno'r rhaglen ynni adnewyddadwy ar doeon fwyaf yn hanes Cymru

Gweithiodd Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru mewn partneriaeth ag Egni Cooperative ac Awel Aman Tawe i ymgymryd â'r gwaith o gyflwyno'r rhaglen bwer solar ar doeon unigol fwyaf yn hanes Cymru.

Hyd yn hyn, mae'r prosiect uchelgeisiol wedi gosod dros 7,000 o baneli solar ar 82 o adeiladau yng Nghymru. Mae'r adeiladau yn eiddo i awdurdodau lleol, ysgolion, Archesgobaeth Caerdydd a sefydliadau cymunedol a busnesau eraill yng Nghymru. Bydd y paneli solar yn arbed 18,000 o dunelli o garbon – sy'n cyfateb i allyriadau nwyon ty gwydr blynyddol o oddeutu 6,600 o gartrefi.

Mae hwn yn brosiect ar gyfer cymunedau a busnesau yng Nghymru lle mae pawb yn ennill. Caiff aelodau o'r cyhoedd brynu cyfranddaliadau yn y cynllun a disgwyl enillion o 4% o'u buddsoddiad. Hyd yn hyn codwyd £1.9 miliwn drwy'r cynnig cyfranddaliadau cymunedol. Mae'r sefydliadau sydd wedi cael paneli solar ar eu toeon yn elwa hefyd – mae'r trydan solar 20% yn rhatach na thrydan eu cyflenwyr blaenorol. Fe wnaethom ddarparu cyngor technegol a masnachol ar gyfer y prosiect. Fe wnaethom hefyd helpu i sicrhau cyllid o £45,000 i dalu am gostau cychwynnol y prosiect a benthyciad o £2.1 miliwn o Gronfa Ynni Lleol Llywodraeth Cymru i roi cychwyn i'r cynllun. Disgwylir i'r paneli hyn a berchnogir yn lleol sicrhau incwm o dros £8 miliwn i Gymru yn ystod eu hoes.

Mae'r cam nesaf o osodiadau wedi cychwyn, gyda gwaith gosod yn dechrau ar y system paneli solar ar doeon a welwyd yng Nghymru (500kW) yn Felodrom Genedlaethol Geraint Thomas, sy'n eiddo i Gyngor Dinas Casnewydd. Ochr yn ochr â'r effaith amgylcheddol ac economaidd cadarnhaol, mae gan y prosiect hwn fanteision ychwanegol. Dywedodd Gerard Namara, pennaeth Ysgol Brynmawr ym Mlaenau Gwent, sydd â 240 o baneli solar ar ei tho: "Mae Brynmawr yn cymryd ei chyfrifoldebau amgylcheddol o ddifrif. Rydym wrth ein boddau fod yr ysgol wedi llwyddo i ostwng ei hôl troed carbon a gweithio mewn partneriaeth â chydweithrediaeth yng Nghymru i osod paneli solar. Rydym hefyd yn awyddus iawn i weld sut y gallem ni ddefnyddio'r data cynhyrchu ar y porth Solar.web yn ein gwersi ac asesu sut y mae gwahanol dywydd yn effeithio ar faint o ynni y mae'r paneli yn ei gynhyrchu.

Bydd yr ysgol hefyd yn cael gwerth £500 o gyfranddaliadau yn y gydweithrediaeth, gan alluogi'r ysgol i ennill llif incwm y gallwn ei ddefnyddio yn ein gwaith ar addysg entrepreneuriaeth gyda'r disgyblion. Mae'n gyfle gwych i ddeall sut y mae'r model busnes cydweithredol yn gweithio."

# Bae Abertawe yn arwain y ffordd tuag at wasanaeth iechyd gwyrddach

Gyda chefnogaeth Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru a Refit Cymru, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe bellach yn arwain y ffordd i dorri allyriadau carbon yn y sector iechyd yng Nghymru. Yn 2020, cychwynnodd y bwrdd iechyd ar waith helaeth i wella effeithlonrwydd ynni ei adeiladau. Mae gosodiadau wedi cychwyn yng ngham cyntaf y prosiect datgarboneiddio gwerth £7.7 miliwn. Mae gan Fae Abertawe hefyd gynlluniau uchelgeisiol ar gyfer defnyddio mwy o ynni adnewyddadwy gyda'r nod o gyflenwi trydan gwyrdd i un o ysbytai mwyaf Cymru.

Bydd y prosiect datgarboneiddio hwn yn lleihau biliau ynni ysbytai Singleton a Threforys, yn ogystal â chlinigau cymunedol a chanolfannau gofal preswyl megis Phillips Parade a Llwyneryr. Bydd y cam cyntaf hwn o'r gwaith effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy yn arbed oddeutu £26.8 miliwn a 67,000 o dunelli o garbon i Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn ystod oes y prosiect. Drwy weithredu i leihau allyriadau carbon, bydd y bwrdd iechyd yn gallu gwario llai ar ei filiau ynni a gwario mwy ar ddarparu gwasanaethau gofal iechyd i'r cyhoedd.

Fe wnaethom ganfod ffyrdd i Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ostwng ei filiau ynni drwy newid i systemau goleuo, awyru a chynhesu sy'n arbed ynni, yn ogystal â gosod gwell systemau i reoli a lleihau'r defnydd o ynni yn ei adeiladau. Bydd yr arbedion hyn ar gost ynni yn cael eu gwarantu, diolch i fodel busnes 'contract perfformiad ynni' Refit Cymru. Mae'r model hwn yn gosod rhwymedigaeth gyfreithiol ar y cyflenwr sy'n gosod yr offer arbed ynni, i sicrhau bod unrhyw arbedion ynni a amcangyfrifir yn cael eu cyflawni'n llawn. Fe wnaethom helpu Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe i roi achos busnes at ei gilydd ar gyfer y prosiect ac i sicrhau benthyciad â llog o 0% gan Raglen Gyllido Cymru Llywodraeth Cymru.

# Prifysgol De Cymru: campws carbon isel

Mae Prifysgol De Cymru wedi ymrwymo i leihau ei effaith amgylcheddol a'i hôl troed carbon. Tîm ynni ac ystadau y brifysgol sy'n arwain yr uchelgais hon. Fe ymgysyllton nhw â Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru i gyflymu ac i gynyddu eu gwaith datgarboneiddio yn 2019-20.

Yn sgil y cydweithio hwn, mae'r brifysgol yn buddsoddi £1.26 miliwn i osod 2,400 o baneli solar (600kW) ac uwchraddio 9,500 o osodiadau goleuo yn ei hadeiladau a'u parciau chwaraeon yng Nghaerdydd, Casnewydd a Threfforest. Disgwylir i hyn leihau cyfanswm ôl-troed trydan y brifysgol gan ~15% ac arbed oddeutu £3.7 miliwn o gostau ynni ac atal 10,000 o dunelli o allyriadau carbon yn ystod oes yr offer. Bwriedir gosod yr offer yn ystod haf 2021.

Bydd y costau ynni llai yn galluogi'r brifysgol i fuddsoddi arian mewn gwasanaethau hanfodol eraill i fyfyrwyr. Er budd ychwanegol, profwyd bod systemau goleuo LED yn gwella lefelau canolbwyntio myfyrwyr a lleihau problemau iechyd a gysylltir â systemau goleuo annigonol, megis straen llygaid a'r meigryn.

# Goleuadau stryd hynod effeithlon yng Nghonwy

Roedd angen i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy newid hen oleuadau stryd aneffeithlon. Croesawodd y cyngor gefnogaeth gan Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru i gyflymu ei raglen o osod goleuadau LED. Bydd uwchraddio i lampau stryd LED rhad-ar-ynni o fudd i'r cyngor drwy ddarparu gostyngiad o 50% mewn carbon a chostau cynnal, yn ogystal â chynyddu oes y lampau.

Fe wnaethom gwblhau cyfrifiadau technegol ac asesiad ariannol i ddatblygu rhaglen i uwchraddio dros 5,000 o oleuadau stryd i rai LED, sef 75% o'r cyfanswm yng Nghonwy. Yna datblygwyd achos busnes i sicrhau benthyciad o £1.77 miliwn â llog o 0% o Raglen Gyllido Cymru. Disgwylir i'r prosiect helpu'r cyngor i arbed £4.5 miliwn mewn biliau ynni a dros 8,000 o dunelli o garbon dros yr ugain mlynedd nesaf. Mae'r arbedion carbon a geir yn cyfateb i 5% o'u holl allyriadau sy'n gysylltiedig ag ynni. Bydd y cyngor ar ei ennill hefyd oherwydd costau cynnal a chadw is gan fod lampau LED yn fwy dibynadwy ac mae eu hoes yn hwy.
Dywedodd Richard Cochran, Rheolwr Goleuadau Stryd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy: "Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn canolbwyntio ar y newid yn yr hinsawdd fel y pwnc sy'n diffinio ein hoes ni a'r bygythiad mwyaf i'n llesiant, yn fyd-eang ac yn lleol. Mae'r awdurdod yn gweithio ar gynllun i fod yn ddefnyddiwr di-garbon net erbyn 2030.

Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn ddiolchgar iawn am y gefnogaeth a'r cymorth a ddarparwyd gan Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru wrth baratoi'r cais am gyllid i Lywodraeth Cymru. Cefnogodd y tîm Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i gynnal dadansoddiad trylwyr o'r bylchau o ran ased goleuadau stryd a darparodd fodelau o ddewisiadau arbed costau cadarn a synhwyrol a fyddai fwyaf addas i strategaeth adnoddau a chyflawni'r awdurdod. Mae Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru wedi darparu cefnogaeth barhaus drwy gydol cyfnod cychwynnol y prosiect. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn edrych ymlaen at weithredu'r prosiect dros y ddwy flynedd nesaf."



# Tyrbin gwynt a berchnogir gan y gymuned yng Ngheredigion



Adeiladwyd tyrbin gwynt Fferm Ffrwd ym mis Hydref 2019, o ganlyniad i gydweithio rhwng Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru, Ynni Cymunedol Grannell, Adfywio Cymru a Secondwind. Bydd y tyrbin a berchnogir yn lleol yn cynhyrchu digon o bwer i gyflenwi 450 o gartrefi ac yn ystod ei oes bydd yn arbed 12,000 o dunelli o garbon.

Fe wnaethom gefnogi Ynni Cymunedol Grannell, cwmni cydweithredol wedi ei leoli yng nghanolbarth Cymru, drwy ddarparu grant gan Lywodraeth Cymru i dalu costau datblygu'r prosiect. Hefyd, fe wnaethom gynnal asesiadau technegol manwl a datblygu achos busnes a sicrhaodd gyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y prosiect. Aeth y cynllun yn fyw yn 2019-20 ac mae nawr yn cynhyrchu trydan gwyrdd yng Ngheredigion.Ariannwyd y tyrbin gwynt 500kW drwy fenthyciad o £625,000 gan Gronfa Ynni Lleol Llywodraeth Cymru a gwerth £260,000 o gyfranddaliadau cymunedol yn y rownd fuddsoddi gyntaf.

Y prosiect hwn oedd un o'r rhai olaf yn y DU i elwa ar y tariff cyflenwi trydan. Bydd y tyrbin yn cynhyrchu incwm o £2.27 miliwn dros y 20 mlynedd nesa. Bydd holl elw'r tariff a'r elw drwy werthu trydan yn cefnogi gweithgareddau cymunedol sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd. Rydym yn parhau i roi cymorth i Ynni Cymunedol Grannell i godi arian ychwanegol drwy gynigion cyfranddaliadau, a fydd yn eu galluogi i ad-dalu benthyciadau yn gynnar a chynyddu'r gyfran o berchnogaeth gymunedol.

Dywedodd cyfarwyddwr Ynni Cymunedol Grannell, Jane O'Brien: "Rwy'n falch o fod yn rhan o grwp o wirfoddolwyr sy'n gweithio mor galed. Mae'r gefnogaeth a gafwyd gan Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru wedi bod yn amhrisiadwy, ac roedd ein rheolwr datblygu ar gael bob amser."

# Gwaith Strategol

Yn ogystal â'n gwaith craidd ar effeithlonrwydd ynni a phrosiectau ynni adnewyddadwy, fe wnaethom gwblhau nifer o weithgareddau eraill yn ystod 2019-20:

- Astudiaethau o gerbydau carbon isel a gwefru trydanol yn y sector cyhoeddus.
- Canllawiau polisi ar berchnogaeth leol o ynni adnewyddadwy
- Cynllunio ynni rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru, Canolbarth Cymru, Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Dinas-Ranbarth Bae Abertawe

# Cerbydau carbon isel a seilwaith gwefru yn y sector cyhoeddus

Fe wnaethom gwblhau dwy astudiaeth arbrofol i asesu'r potensial ar gyfer newid fflyd y sector cyhoeddus i gerbydau ag allyriadau isel a gosod seilwaith ar gyfer gwefru cerbydau:

## Ceir trydan-batri cronfa ar gyfer Bro Morgannwg

Gweithiodd ein harbenigwyr trafnidiaeth gyda Chyngor Bro Morgannwg i gasglu ac i ddadansoddi data fflyd i ddeall y potensial ar gyfer newid eu ceir cronfa presennol i rai cerbydau trydan. Drwy ddefnyddio'r data hyn, gwelodd ein tîm fod cyfle i'r cyngor arbed £22,000 y flwyddyn ar gostau tanwydd drwy newid 38 o geir petrol a diesel i gerbydau trydan-batri. Fe wnaethom ni hefyd gynghori'r cyngor ynghylch y seilwaith gwefru y byddai ei angen i weithredu'r fflyd hon. Hyd yn hyn, mae'r cyngor wedi ymrwymo i 10 cerbyd trydan-batri i gynyddu maint ei fflyd bresennol ac mae'n disgwyl newid y 38 o geir presennol am gerbydau trydan erbyn 2021. Amcangyfrifir y bydd hyn yn golygu arbedion oes o 148 o dunelli o CO2e ar draws y fflyd gyfan.

## Dull rhanbarthol o uwchraddio fflyd

Fe wnaethom weithio gydag wyth o gyrff cyhoeddus yng Ngwent i helpu i gyflymu eu proses o drawsnewid i fflyd o gerbydau isel iawn eu hallyriadau (ULEV). Darparodd y dull rhanbarthol hwn fforwm newydd ar gyfer rhannu profiadau ac arferion gorau o ran trydaneiddio ceir a faniau'r sector cyhoeddus.


Lluniwyd cynllun gennym ar gyfer pob cyfranogwr a nododd pa fflydoedd y dylid eu hystyried ar gyfer cerbydau trydan. Hyd yn hyn, gwnaed cynlluniau i gyflwyno 262 o geir a faniau trydan-batri ar draws y rhanbarth, ac amcangyfrifir y bydd hyn yn golygu arbedion oes o 808 o dunelli o garbon deuocsid. Mae Cyngor Caerffili hefyd yn dilyn ein hargymhelliad ac yn gweithredu i leihau maint ei fflyd bresennol a defnyddio gweddill y cerbydau yn fwy effeithiol, gydag arbedion posibl o oddeutu £70,000.Byddwn yn cyflwyno ffrwd waith newydd yn benodol ar gyfer datgarboneiddio fflydoedd yn 2020-21. Bydd hyn yn cynnwys cyflwyno'r dull rhanbarthol a brofwyd yng Ngwent. Byddwn yn gweithio gyda chyrff cyhoeddus ledled Cymru i gyflymu eu cynlluniau i drawsnewid eu fflydoedd i gerbydau isel iawn eu hallyriadau cyn 2025.

# Canllawiau polisi perchnogaeth leol

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno polisi sy'n datgan bod yn rhaid i bob prosiect ynni newydd gael o leiaf elfen o berchnogaeth leol o 2020 ymlaen. Sefydlwyd y Gweithgor Perchnogaeth Leol (LOWG) i gefnogi grwpiau cymunedol, datblygwyr y sectorau cyhoeddus a phreifat a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i gyflawni yr amcan polisi hwn. Ein swyddogaeth ni oedd cydgysylltu'r gweithgor ar ran Llywodraeth Cymru. Casglwyd tystiolaeth sylweddol a manwl gennym gan ystod eang o randdeiliaid. Fe wnaethom gynhyrchu dogfen ganllaw ac astudiaethau achos o ranberchnogaeth ymarferol, wedi eu cynllunio i helpu grwpiau cymunedol, datblygwyr y sectorau cyhoeddus a phreifat i sicrhau'r manteision lleol gorau i Gymru. Mae'r dogfennau hyn i'w cyhoeddi yn ddiweddarach eleni.

# Cynllunio ynni rhanbarthol

Rydym yn gweithio ochr yn ochr â rhanddeiliaid ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd, Gogledd Cymru, Canolbarth Cymru a Dinas-Ranbarth Bae Abertawe i weithredu strategaethau ynni rhanbarthol hirdymor. Bwriad y gwaith hwn yw annog dull yn seiliedig ar leoedd ar gyfer datgarboneiddio ac i ymwreiddio pynciau ynni mewn cynlluniau ehangach ar gyfer datblygiad economaidd, o dan y Bargeinion Dinesig a'r Bargeinion Twf. Bydd y strategaethau hyn yn helpu i gyflawni targedau ar gyfer datgarboneiddio a helpu i sicrhau'r cyfleoedd gorau i bobl yng Nghymru i elwa ar economi gwyrddach.




Mae'r gwaith o gynllunio ynni yn cynnwys ymgysylltiad rhanddeiliaid cyhoeddus, preifat a thrydydd parti ym mhob rhanbarth. Yn 2019-20 trefnwyd cyfres o weithdai gennym i gasglu dirnadaethau a syniadau gan ddylanwadwyr allweddol yn y pedwar rhanbarth. Cyfrannodd y rhain at ein hasesiadau 'sefyllfa bresennol' o ran ynni lleol a llywio'r 'weledigaeth ynni' a'r targedau ar gyfer datgarboneiddio ym mhob rhanbarth. Fe wnaethom gyfrifo'r galwadau ynni presennol, allyriadau carbon a'r ynni a gynhyrchwyd ar lefel ranbarthol ar gyfer Canolbarth Cymru, Gogledd Cymru a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Wedyn, fe wnaethom asesu'r dewisiadau ar gyfer lleihau allyriadau carbon ar lefel ranbarthol. Cyflwynodd y strategaethau ynni, a berchnogir gan y rhanbarthau, weledigaeth ar gyfer y dyfodol i ddatgarboneiddio pob rhanbarth ynghyd â blaenoriaethau ar gyfer cyflawni'r weledigaeth honno, megis ôl-osod tai, seilwaith y grid cenedlaethol a datgarboneiddio amaeth. Erbyn mis Mawrth 2020, roedd strategaethau ynni'r tri rhanbarth wedi eu drafftio; byddwn yn gweithio gyda'r rhanbarthau yn 2020-21 i gwblhau a dechrau gweithredu'r strategaethau hyn. Y canlyniad cyffredinol fydd i bob rhanbarth gael strwythur llywodraethu effeithiol i gydgysylltu cydweithio cyhoeddus, preifat a chymunedol i gyflawni effaith datgarboneiddio dros y tymor hwy.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gwasanaeth **Ynni**
**Energy** Service

Cefnogi yndrech Cymru i greu economi carbon isel lwyddiannus
Supporting Wales' drive towards a successful low carbon economy



